**Y Pwyllgor Diwylliant CC 06-03 (p2) Atodiad Ychwanegol**

**Dyddiad: 26 Mawrth 2003**

**Amser: 9:00 – 12:30**

**Lleoliad: Ystafell Bwygora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# IAITH PAWB – DYRANIAD ARIANNOL 2003-04

Caiff prif gyfran yr arian i gefnogi’r iaith Gymraeg ei sianelu fel a ganlyn. Mae’r manylion hyn yn seiliedig ar gynlluniau gweithredol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Llyfrau Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, sydd ar gael ar eu gwefannau priodol. Mae ffigurau’r llynedd mewn cromfachau i hwyluso cymhariaeth.

## Bwrdd yr Iaith Gymraeg: £11.584m [£6.8725m]

*Ffigurau mynegiannol: 2004-05: £12.329m; 2005-06 £13.324m*

**Grantiau i hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg:** £3.69m [£2.41m]

Ymhlith y rhai fydd yn elwa mae:

- Mudiad Ysgolion Meithrin: £1m [£0.7m]. Caiff hwn ei wario ar sefydlogi nifer y plant sy’n mynychu cylchoedd meithrin ac i gynyddu’r niferoedd sy’n mynychu cylchoedd Ti a Fi 10%.
- Mentrau Iaith: £1.338m [£0.714m]. Bydd yr arian ychwanegol hwn o gymorth i gynnal 25 Menter Iaith, gan gynnwys 2 Fenter newydd, mewn 18 Awdurdod Lleol, ac mae’n adlewyrchu pwyslais Iaith Pawb ar gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ar lefel gymunedol.
- Urdd: £520,000 [£340,000]. Ymhlith pethau eraill, bydd disgwyl i’r Urdd ddatblygu prosiectau chwaraeon a ieuenctid cyfrwng Cymraeg mewn gwahanol rannau o Gymru, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig.
- Eisteddfod Genedlaethol: £350,000 [£300,000]. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn galluogi’r Eisteddfod i adeiladu ar ei rôl allweddol sydd ganddo i hybu’r Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Grantiau ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg: £2.573m [£2.242m]**

Bydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu grantiau i Awdurdodau Addysg Lleol i'w galluogi i gefnogi a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y grantiau hyn, ymysg pethau eraill, yn galluogi sefydlu 58 swydd Athrawon Bro ledled Cymru, ac 8 swydd ddysgu mewn Canolfannau Hwyrddyfodiaid.

**Caffaeliad Iaith:** £1.047m [£0.283m]

Gan gynnwys:

- £580,000 [£190,000] ar brosiect arloesol TWF sy'n hyrwyddo trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd.
- £140,000 i alluogi'r Bwrdd i gynyddu'n sylweddol ei waith ym maes ymchwil a datblygu a dadansoddi data. Bydd hwn yn cynnwys arolygon ymddygiad ac agwedd a fydd yn llywio prosiectau a pholisïau'r dyfodol. Nid oedd unrhyw wariant penodol yn 2002-03, er bod peth data wedi'i gasglu fel rhan o waith arall megis ymchwil marchnata.
- £85,000 [£35,000] i gynnal y 6 chynllun gweithredu iaith presennol, lansio 3 ychwanegol a chynnal gwerthusiad manwl o gynlluniau o'r fath.
- £75,000 [£20,000] i ddatblygu swyddogaeth gydlynol a chynllunio ar gyfer y Mentrau Iaith ar lefel genedlaethol, drwy greu rhaglenni hyfforddi a datblygu staff ar lefel genedlaethol. Y nod yw safoni'r gwasanaethau a gynigir gan y Mentrau Iaith a chaiff eu gwefan ei datblygu ymhellach a chysylltiadau rhwydweithio eraill eu harddel i'w galluogi i ledaenu syniadau a rhannu arferion gorau.
- £55,000 i ddatblygu 3 phrosiect i hyrwyddo defnydd o'r iaith ymhlith pobl ifanc ym maes cerddoriaeth roc a phop, chwaraeon a Mudiad Ffermwyr Ifanc. Bydd y prosiectau hyn yn sylfaen ar gyfer gwaith pellach gyda'r nod o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc. Mae hwn yn faes gwariant newydd – ac felly nid oes modd cymharu â blynyddoedd cynt.
- £50,000 i ddatblygu strategaeth TG ar gyfer yr iaith, er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cadw i fyny â datblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth, ac yn manteisio arnynt. Mae hwn yn faes gwariant newydd – ac felly nid oes modd cymharu â blynyddoedd cynt.

**Addysg a hyfforddiant:** £171,000 [£255,000]

Mae'r arian hwn yn cynnwys £155,000 (£245,000 yn 2004-05, £337,500 yn 2005-06) ar brosiect ymdrochi iaith 3 blynedd i ddarparu cyrsiau byr dwys i blant sy'n symud o ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Caiff hwn ei ariannu gan adran addysg Llywodraeth y Cynulliad, ac mae'n arian sydd ar ben cyhoeddiadau ariannol blaenorol i gefnogi'r iaith. Roedd y ffigur ar gyfer 2002-03 yn cynnwys £200,000 ar brosiect i gynhyrchu deunyddiau Cymraeg i oedolion a ariannwyd gan arian penodol o du ELWa.

Caiff £9.5m ychwanegol a gyhoeddwyd fis Tachwedd ar gyfer mesurau o fewn y strwythur addysg ffurfiol ei wario yn 04-05/05-06.

**Arfau Iaith:** £155,000 [£62,000]

Mae hwn yn cwmpasu nifer o brosiectau a chyfleusterau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Mae'n cynnwys:

- Prosiectau wedi'u hanelu at safoni terminoleg ac enwau lleoedd: £36,000
- Datblygu cronfa ddata genedlaethol o dermau wedi'u safoni: £20,000
- Datblygu cynorthwyon electronig i gyfieithwyr ac eraill: £50,000

**Marchnata:** £850,000 [£90,000]

Bydd arian ychwanegol yn galluogi Bwrdd yr Iaith i ddatblygu strategaeth holistig i farchnata a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau wedi'u hanelu at hyrwyddo'i defnydd gan bobl ifanc ac yn y sector preifat, yn ogystal ag o fewn cymunedau. Bydd hefyd yn cynnwys marchnata manteision trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu a sicrhau dilyniant ar hyd lefelau gwahanol addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr arian hwn hefyd yn galluogi'r Bwrdd i ddatblygu ei ymgyrch *Iaith Gwaith*, ac i ddatblygu deunyddiau marchnata at ddibenion penodol.

**Costau rhedeg:** £2.774m [£1.585m]

Mae'r cynnydd o dan y pennawd hwn yn adlewyrchu swyddogaeth ymgynghorol flaenllaw y Bwrdd, yn arbennig o ran eu gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg ymhlith cwmnïau'r sector preifat, cyflwyno cynlluniau iaith sector cyhoeddus newydd a monitro cynlluniau a gyflwynwyd. Bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd i benodi ystadegydd i ddatblygu ei waith o gasglu a dadansoddi data a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio i mewn i faes casglu a dadansoddi data.

Bydd y Bwrdd hefyd yn recriwtio staff newydd er mwyn cyflawni ei rôl estynedig a sefydlu presenoldeb rhanbarthol yn unol â pholisi rhanbartholi Llywodraeth y Cynulliad. Er mwyn cychwyn ar hyn bydd yn sefydlu dwy swyddfa newydd yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin erbyn diwedd 2003.

## Cyngor Llyfrau Cymru: £2.827m [£1.774m]

*Ffigurau mynegiannol: 2004-05: £3.132m; 2005-06 £3.137m.*

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn derbyn £1.3m ychwanegol dros y 3 blynedd ariannol nesaf. Yn

benodol, bydd y Cyngor Llyfrau yn derbyn £300,000 y flwyddyn nesaf, gan alluogi'r Cyngor i gynyddu'r cymorth ariannol y gall ei gynnig i awduron, cynyddu'r gefnogaeth olygyddol i dai cyhoeddi a chryfhau seilwaith y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

Mae'r ffigur uchod ar gyfer 2003-04 hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y Grant Llenyddiaeth, sef £980,000 ar hyn o bryd, yn cael ei drosglwyddo o Gyngor y Celfyddydau i'r Cyngor Llyfrau. Gan gynnwys £920,000 i ddarparu cymorth grant ar gyfer llyfrau a chyfnodolion Cymraeg, a £960,000 ar lenyddiaeth Gymreig.

## Theatr Iaith Gymraeg: £0.25m [0.25m]

*Ffigurau mynegiannol: 2004-05: £0.5m; 2005-06: £0.75m.*

Dyrannwyd £0.25m eisoes yn 2002-03 i roi cychwyn ar ddatblygu Cwmni Theatr Iaith Gymraeg Cenedlaethol. Bydd y £1.5m ychwanegol hwn dros y 3 blynedd nesaf yn galluogi Cyngor y Celfyddydau i sefydlu a rhedeg y cwmni newydd, gan sicrhau ei fod yn cwmpasu Cymru gyfan ac yn cyflwyno ystod eang o gynhyrchiadau ansawdd uchel.

## Patagonia: £0.035m [£0.035m]

Bydd prosiect Patagonia yn derbyn £105,000 dros y 3 blynedd ariannol nesaf. Mae'r arian yn cynorthwyo y rhaglen dysgu Cymraeg ym Mhatagonia, gan gynnwys secondio athrawon yng Nghymru, hyfforddi tiwtoriaid lleol, a chefnogi gweithgareddau diwylliannol lleol.